

MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU



FFORWM IEUENCTID
12FED IONAWR, 2022
ZOOM, 7.00YH

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Cerys Harts

IS-GADEIRYDD: Miss Sioned Davies

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Agorwyd y cyfarfod am 7.08 gan Cerys Harts y Cadeirydd, a ofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain ar gyfer yr aelodau newydd oedd yn mynychu.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Sara.

GOHEBIAETH

Mae Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn holi am farn a safbwyntiau pobol ifanc am faterion sydd yn eu heffeithio nhw er mwyn eu pasio ymlaen at y Senedd.

Dyddiad cau er mwyn cyflwyno yw 17eg Ionawr 2022. Ambell syniad a drafodwyd oedd cau ysgolion gwledig, problemau cysylltiad mewn ardaloedd gwledig ac effeithiau Cofid.

ADRODDIADAU SIROL

Cafwyd adroddiad gan aelod o bob sir oedd yn bresennol i rannu'r digwyddiadau a chyfarfodydd wedi eu cynnal ers y cyfarfod diwethaf.

Cynrychiolwyd Sir Benfro gan Cerys Harts.

Cynrychiolwyd Sir Gar gan Mari James.

Cynrychiolwyd Brycheiniog gan Carys Rees.

Cynrychiolwyd Ceredigion gan Beca Jenkins.

DIGWYDDIADAU I DDOD

Cynigodd Carys fod gweithgareddau dros Zoom yn cael eu trefnu fel Bingo neu Gwis os nad oedd cyfyngiadau i gyfarfod yn llacio. Cynigodd Cerys fod Alfie o CFFI Gwent yn creu'r cwis gan ei fod wedi gwneud yn y gorffennol a phawb wedi mwynhau. Soniwyd hefyd byddai gem 'Casglu o'r ty' yn cael eu trefnu.

Holodd Seren am farchnata'r digwyddiadau a'r nifer o bobol byddai'n mynychu.

Penderfynwyd gan bawb ddylai sgwrs grŵp yn cael eu creu gyda'r holl fynychwyr a chynrychiolwyr o bob sir er mwyn lledaenu'r neges.

Mae cyfarfod Cyngor ac is-bwyllgor Fforwm Ieuenctid wyneb yn wyneb i'w gynnal mis Mehefin.

Awgrymodd Caryl Haf, Cadeirydd CFFI Cymru ein bod yn paratoi rhywbeth fel stondin ar gyfer y Sioe Frenhinol. Soniodd Cerys eu bod yn cofio stondin gliter yn y gorffennol a'u fod yn ffordd dda i gael incwm ar gyfer y pwyllgor.

Awgrymodd Caryl Haf cystadleuaeth Bowlio Deg rhwng Siroedd, rhywbeth i'w drafod ymhellach gyda Rhianwen, Swyddog Cystadlaethau CFFI Cymru.

Awgrym arall ddaeth i law oedd Ninja Warrior, Caerdydd, i gyfarfod diwedd yr Haf gan fyddai hwn yn hwyl ac yn adloniant i bawb heb ymrwymadau ysgol.

Awgrymodd Mari James Parc trampolîn/inflatables, gem o Rownderi a Go-cartio. Credai Carys fyddai digwyddiad corfforol yn well na digwyddiad ar Zoom gan ei fod yn fwy rhyngweithiol felly ffordd o ddenu mwy o bobol. Cytunwyd gan bawb dylwn drïo cynnig cyfleoedd newydd a gwreiddiol er mwyn denu aelodau newydd.

LLES AELODAU

Yn ystod pob cyfarfod, byddwn yn ymdrechu i weld sut mae pawb a sicrhau bod pawb yn medru trafod unrhyw ofidion gyda'r fforwm a bod pawb yma i gefnogi ei gilydd. Soniwyd byddai'n opsiwn i drefnu digwyddiad fel 'Meddwlgarwch Mercher' /'Wellbeing Wednesday' lle byddwn yn darparu gwybodaeth drwy neges ar wefannau cymdeithasol eu mewn sesiwn galw i mewn i drafod ac am sgwrs.

Bwriadwn i gyfarfod wyneb yn wyneb ar gyfer ein cyfarfod nesaf, bydd yn cael ei gynnal ar 30ain Ebrill yn Llanelwedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.58